**YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I BWYLLGOR CYMUNEDAU A DIWYLLIANT CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

Rydym yn croesawu'r casgliadau ac yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r argymhellion yn yr adroddiad.

## Argymhellion

### *Argymhelliad 1*

**Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Llywodraeth y DU i sicrhau lluosogrwydd mewn darlledu yn Saesneg yng Nghymru yn ei hadroddiad *Prydain Ddigidol* a gyhoeddir cyn bo hir, er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer Comisiwn Cyfryngau Cymru, a gwarantu'r lefel bresennol o gynnyrch rhaglenni ar ITV**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfeirio'n gyson at bwysigrwydd lluosogrwydd mewn ym maes teledu Saesneg yng Nghymru fel rhan allweddol o'r gwaith o ddiwallu anghenion gwylwyr yng Nghymru. Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn cael llai o lawer o newyddion a gwybodaeth am faterion cyfoes o bapurau a chylchgronau Cymreig nag y caiff pobl yr Alban o rai Albanaidd (16% o'i gymharu â 70%). Oherwydd gwendid cymharol y cyfryngau print yng Nghymru, mae hyd yn oed yn bwysicach bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig gwasanaeth newyddion cynhwysfawr o fwy nag un safbwynt. Rydym hefyd wedi tanlinellu pwysigrwydd lluosogrwydd o ran y rhaglenni cyffredinol a anelir at wylwyr yng Nghymru.

Soniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru am bwysigrwydd lluosogrwydd ym maes cyflenwi rhaglenni yn ein hymateb i adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ac wrth ymateb i adroddiad drafft Prydain Ddigidol. Wedi hynny, fe fynegwyd ein pryderon y byddai'r cynlluniau diweddaraf i ad-drefnu ITV Cymru yn golygu erydu annibyniaeth ITV Cymru a'u gallu i wneud rhaglenni. Cytunwn yn llwyr â barn y Pwyllgor bod ar Gymru angen llais annibynnol cryf ym myd darlledu er mwyn gwrthbwyso darpariaeth raglenni BBC Cymru. Rydym yn awyddus i sicrhau na fydd gostyngiad pellach yn y rhaglenni Cymreig a ddarperir gan ITV.

Tua diwedd 2008, cefnogodd Llywodraeth Cynulliad Cymru argymhelliad ein Grŵp Cynghori ar Ddarlledu y dylid sefydlu Comisiwn Cyfryngau i Gymru er mwyn cryfhau darpariaeth rhaglenni cyffredinol ar gyfer gwylwyr o Gymru ar ITV1.

***Argymhelliad 2***

**Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru a’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru i gomisiynu rhaglenni newyddion a rhaglenni eraill yn wreiddiol i’w darlledu ar ITV a chynnwys pellach ar gyfer gwasanaethau a chyfryngau eraill. Rydym yn nodi ein cynigion ar gyfer Comisiwn Cyfryngau Cymru yn ein hadroddiad.**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad yn Rhannol**

Roedd cynnig y Pwyllgor ynghylch sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru yn dibynnu'n bennaf ar fod Llywodraeth y DU yn trefnu bod adnoddau ar gael. Nid yw hyn wedi digwydd.

Rydym yn dal o'r farn y gallai sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru, fel yr awgrymwyd gan Grŵp Cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ddarlledu, fod yn ffordd effeithiol o ymateb i anghenion a buddiannau gwylwyr yng Nghymru.

Fodd bynnag, nid yw darlledu wedi'i ddatganoli ac mae adroddiad Llywodraeth y DU, Prydain Ddigidol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2008, yn cynnig cynllun peilot yng Nghymru, sef consortia newyddion a ariannir o ffynonellau annibynnol, yn 2010 mae'n fwy na thebyg. Rydym yn croesawu'r ffaith fod Prydain Ddigidol yn cydnabod bod cyllido darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu her ddifrifol a bod angen mynd i'r afael â hyn. Dylai'r cynllun peilot a gynigir fynd beth o'r ffordd tuag at ymateb i'r heriau sy'n wynebu darlledu Saesneg yng Nghymru ond rydym yn siomedig nad yw'r adroddiad yn cydnabod bod angen cymryd camau tebyg ym maes rhaglenni heblaw newyddion. Bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru drafod y cynigion hyn yn fwy manwl gyda Llywodraeth y DU yn awr. Byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth bellach i swyddogaeth Comisiwn Cyfryngau Cymru yng ngoleuni'r trafodaethau hyn.

***Argymhelliad 3***

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol brys o’i gweithgarwch ym maes y diwydiannau creadigol a'r diwylliant clyweledol, gan gynnwys rôl Cronfa Eiddo Deallusol Cyllid Cymru, yr Asiantaeth Ffilmiau a’i modd o ariannu newyddiaduraeth Gymraeg a radio cymunedol Gymraeg ac ystyried y modd y gallai’r gweithgareddau hyn gynorthwyo a chefnogi Comisiwn Cyfryngau Cymru.**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

Rydym wedi cytuno y bydd yr Athro Ian Hargreaves o'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cael ei secondio, rhan amser, i Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal adolygiad o sector y diwydiannau creadigol. Bydd hyn yn cynnwys,

ymhlith pethau eraill, amcangyfrif maint y farchnad yn fras; canfod y cyfle sydd yn y farchnad yng Nghymru ar gyfer pob rhan o sector y diwydiannau creadigol; ystyried cysylltiadau mewnol ac allanol Llywodraeth Cynulliad Cymru; sgiliau; ac adolygiad o'r Gronfa Eiddo Deallusol. Yn ogystal, bydd yr adolygiad yn ystyried argymhellion a goblygiadau adroddiad 'Prydain Ddigidol' Llywodraeth y DU mewn perthynas â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â darlledu a'r Diwydiannau Creadigol. Bydd dirnadaeth yr Athro Hargreaves yn helpu Cymru i gael y manteision mwyaf o'r sector hollbwysig hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymrwymo i adolygu'r cymorth a roddir i Golwg360 cyn i gytundeb ariannu tair blynedd y fenter honno ddod i ben yn 2011. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn bod angen aros am benderfyniadau gan Lywodraeth y DU ynghylch cryfhau trefniadau rhaglennu rhanbarthol ar ITV1 cyn ystyried y cynnig ynghylch Comisiwn Cyfryngau Cymru ymhellach.

***Argymhelliad 4***

**Argymhellwn fod Ofcom yn mynnu bod y prif ddarparwyr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn cadw at eu targedau sylfaenol o gynnyrch Gymru ar y rhwydwaith, sef 5% o'r cynnyrch cymhwysol. Dylai Ofcom, Llywodraeth y Cynulliad a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fonitro'r cynnydd tuag at y nod hwn.**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dweud yn glir ei bod o'r farn y dylai pob un o'r sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus gomisiynu o leiaf 5% o'u rhaglenni rhwydwaith o Gymru. Mae Ymddiriedolaeth y BBC eisoes wedi pennu targedau ar gyfer y BBC a mater i Ofcom fyddau pennu targedau ar gyfer y sianeli Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus eraill.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n credu y dylai ymrwymiad y BBC i sicrhau 17% o'i raglenni rhwydwaith o'r cenhedloedd erbyn 2016 gael ei symud ymlaen i 2012.

Croesawn yr awgrym yn *Prydain Ddigidol* y dylid rhoi Channel 4 yng nghanol ail sefydliad gwasanaeth cyhoeddus neilltuol a fyddai'n cystadlu â'r BBC o ran ansawdd ar lefel y DU. Fodd bynnag, roedd cynigion Ofcom a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Channel 4 gynhyrchu dim ond 3% o'i gomisiynau rhwydwaith yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau yn achos pryder i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hoffem ailadrodd ein barn y dylid ei gwneud yn ofynnol, fel rhan o'i rhwymedigaethau fel gwasanaeth cyhoeddus, i Channel 4 gynhyrchu o leiaf gyfran sy'n cyfateb i'r boblogaeth o'r rhaglenni a gomisiynir ganddi yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau. Os bwriedir sefydlu ail gorff darlledu gwasanaeth cyhoeddus, credwn ei bod yn rhaid i Channel 4 fabwysiadu yr un cwotâu â'r BBC ar gyfer cynyrchiadau rhwydwaith o'r cenhedloedd. Mae'r un

mor bwysig bod Channel 4 yn chwarae ei rhan yn portreadu Cymru i gynulleidfa'r DU, ochr yn ochr â rhwydweithiau'r BBC.

***Argymhelliad 5***

**Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu asesiad blynyddol o’r portread o Gymru ar gynnyrch rhwydwaith pob un o’r darlledwyr sy’n darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC, ITV, Channel 4, S4C a Five), gan gynnwys y ddarpariaeth newyddion.**

**Ni Dderbyniwyd yr Argymhelliad**

Fel y nodwyd yn ein hymateb i adroddiad yr Is-Bwyllgor Darlledu ym mis Medi 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi cryn bwyslais ar gryfhau'r portread o Gymru ar bob un o'r prif rwydweithiau darlledu. Mater i Ymddiriedolaeth y BBC, Awdurdod S4C ac Ofcom yw asesu pa mor llwyddiannus y bu'r ymdrechion hyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio ag Ofcom i weld sut y gellir cryfhau'r agwedd hon ar y gwaith yn y dyfodol. Bydd Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dal i drafod y ffordd y portreadir Cymru ar raglenni'r rhwydwaith fel rhan o'u cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cyrff darlledu.

***Argymhelliad 6***

**Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n annog Llywodraeth y DU i adolygu’r Ddeddf Darlledu er mwyn llunio un drwydded fasnachol i Gymru**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad yn Rhannol**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bryderus nad yw trefniadau trwyddedu cyfredol ITV yn gweithio er budd dinasyddion Cymru. Byddwn yn parhau i annog Llywodraeth y DU ac Ofcom i ddal ati i adolygu'r mater hwn ac i ystyried pob posibilrwydd ar gyfer sicrhau nad ar draul rhaglenni addysgiadol a difyr wedi'u hanelu at wylwyr Cymru y bydd ITV yn parhau i lwyddo'n fasnachol.

***Argymhelliad 7***

**Argymhellwn fod Gweinidogion Cymru, mewn cydweithrediad ag Ofcom, yn adolygu’r posibilrwydd o ddatganoli’r dyraniad o drwyddedau radio cymunedol yng Nghymru**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad yn Rhannol**

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dal ati i adolygu'r mater hwn. Am y tro, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dal i gydweithio'n agos ag Ofcom i sicrhau ei fod yn cynnig atebion technegol ac atebion o ran polisi sy'n

adlewyrchu anghenion gwylwyr a gwrandawyr Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n nodi bod trwyddedau radio masnachol Cymru eisoes wedi'u dyrannu a bod y diwydiant yn mynd trwy broses o atgyfnerthu. Mewn cyfnod o gydgyfeirio digidol, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i hargyhoeddi gan y ddadl y byddai'n ddoeth datganoli agweddau unigol ar yr isadeiledd darlledu ar wahân i'r lleill. Am resymau topograffigol a logistaidd, mae'n bosib nad dyrannu trwyddedau radio cymunedol ar lefel Cymru yn unig fydd orau bob amser gan fod llawer o ardaloedd ar hyd y ffin, a Môr Hafren, lle mae'r olion traed darlledu yn gorgyffwrdd. Mae system gyfredol Ofcom yn talu sylw i'r gorgyffwrdd hwn ac yn dyrannu trwyddedau ar lefel fwy rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu radio cymunedol. Felly, byddwn yn dal ati i adolygu'r mater hwn gyda'r nod o sicrhau newidiadau i'r trefniadau trwyddedu cyfredol os bydd angen.

***Argymhelliad 8***

**Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n cydweithio ag Ofcom a Llywodraeth y DU i sicrhau bod DAB ar gael ar draws 90% o Gymru gyfan, a bod gwasanaethau BBC Cymru ar gael ar DAB ar draws 90% o Gymru, cyn i'r signal analog gael ei ddiffodd**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi mynegi'n glir y dylai sicrwydd bod lefel cyrhaeddiad radio digidol yng Nghymru o leiaf gyfuwch â'r lefel yng ngweddill y DU fod yn un o feini prawf sylfaenol y newid i radio digidol. Rydym eisoes wedi pwyso am sicrwydd y bydd o leiaf 97% o Gymru'n gallu derbyn radio DAB. Byddwn yn dymuno ymgynghori ag Ofcom ac eraill ar yr awgrym y dylid gosod trothwy bod gwasanaethau lleol DAB ar gael ar draws 90% o'r DU gyfan.

Mae gwir bryder y dylai'r newid i DAB, er bod hynny'n rhesymol yng nghyd-destun y DU, gael ei gynllunio mewn ffordd sy'n adlewyrchu sefyllfa Cymru hefyd. Pan fodlonir y meini prawf a gynigir ar draws y DU, mae bron yn sicr na fydd DAB ar gael mewn cyfran mor helaeth o Gymru o bell ffordd. Yn ogystal, bydd angen datrys problemau penodol am y gwasanaethau Cymreig a fydd ar gael ar DAB cyn y gellir cyfiawnhau dod â'r gwasanaeth analog i ben. Byddwn yn dymuno cydweithio â phawb y mae ganddynt ran i'w chwarae er mwyn sicrhau bod lefel cyrhaeddiad DAB yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer rhwydweithiau cenedlaethol y BBC, yn ddigonol cyn dyddiad y newid i ddigidol.

***Argymhelliad 9***

**Argymhellwn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n cydweithio â darlledwyr a chynhyrchwyr annibynnol i weithio gyda’r BBC i ddatblygu canolbwynt creadigol ar gyfer y cyfryngau - ‘Canolfan Cyfryngau’**

**Derbyniwyd yr Argymhelliad**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydweithio'n agos â'r BBC gyda'r nod o ddatblygu canolfan gynhyrchu fawr yng Nghymru. Croesawn y cyhoeddiad bod y BBC yn ystyried sefydlu "pentref drama" yng Nghymru a symud Casualty i dde Cymru. Byddai canolfan gynhyrchu fawr fel hyn yn helpu i ddatblyhu sylfaen gynhyrchu gynaliadwy yng Nghymru. Byddai'r BBC yn hoffi ei sefydlu ar dir ym Masn y Rhath, sy'n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad, ac rydym yn cydweithio'n agos â'r BBC a'n partner datblygu yn y sector preifat i gyflawni'r prosiect hwn. Rydym yn awyddus i sicrhau bod popeth posibl yn cael ei wneud i wireddu'r cynllun hwn.

.